

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

### Gorffennaf 5ed, 2016

**Presennol:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Heledd Jones (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1597** Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhodri Jones, Dewi Jones
- 1598** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1599** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
- 1600** Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 7fed 2016
- 1601** Materion y Clerc:
- i. 1588 Baw cŵn – derbyniwyd cydnabyddiaeth o'r wybodaeth a drosglwyddwyd; mae'r swyddogion yn ymweld er mwyn ceisi dal troseddwyd.
  - ii. Anfonwyd ein gwerthfawrogiad o waith Meddygfa'r Hafan hefyd at Fwrdd Betsi Cadwaladr.
  - iii. Treiathlon 2017 - cytunodd Arwel Lloyd Jones ac Alan Jones Evans i gynrychioli Cyngor Cymuned Llanuwchllyn mewn cyfarfod yn yr Hydref o Gyngor Tref Y Bala i drafod gwella'r trefniadau er hwylustod i'r fro.
  - iv. 1588 Diogelwch tu allan i'r neuadd - derbyniwyd gwybodaeth gan Adran y Priffyrdd y bydd mesur cyflymdra yn digwydd. Cytunwyd i holi am brisiau arwyddion yn fflachio ARAF. Cytunodd Alan Jones Evans i godi mater o ystyried lleoli'r ysgol feithrin ar gampws yr ysgol gynradd yng nghyfarfod nesaf Llywodraethwyr Ysgol O M Edwards
- 1602** Adroddiad y Cynghorydd Sir: dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y cafwyd cadarnhad gan y Gweinidog y bydd y ffiniau sirol a chymuned yn parhau'r un fath ar hyn o bryd. Cynhelir etholiadau Gwynedd a Chymunedol mis Mai nesaf a phum mlynedd fydd hyd tymor y sawl a etholir. Adroddodd ei fod yn falch ei fod yn aelod o bwyllgor rhanddeiliaid cymunedol yr ysgol gydol oes. Bu hefyd mewn cyfarfod yn y Ganolfan Hamdden ac mae anogaeth ar glybiau lleol i berchnogi'r gweithgareddau a'r adnoddau yno.
- 1603** Adroddodd Heledd Jones o gyfarfod blynyddol pwyllgor y neuadd Bentref fod consyrn parhaus am sicrhau incwm rheolaidd; uwchraddiwyd rhywfaint o ddodrefn ac ystafelloedd yn ddiweddar.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

**1604** Trefniadau Noson Goffi'r Cyngor - adroddodd Arwel Lloyd Jones fod trefniadau wedi eu gwneud gyda Paul Edwards, Consuriwr. Fe fydd hon yn noson atyniadol i bob oed, ac yn arbennig i blant. Fe fydd yr elw'n mynd tuag at Ambiwylans Awyr. Cytunodd y Clerc i gysylltu gyda Merched y Wawr a Sefydliad y Merched unwaith bydd y dyddiad wedi ei gadarnhau.

**1605** Trefniadau cofio milwyr a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf: cytunodd y Cadeirydd i roi ychydig o hanes milwyr lleol mewn cyfarfod cyhoeddus yn yr Ysgoldy cyn symud ymlaen at y fynwent i osod torchau pabi coch a gwyn i nodi canmlwyddiant y gyflafan fawr yn Ffrainc. Mynegwyd diolch i'r Cadeirydd ac i'r Parchedig Carwyn Siddall am ymwneud a hyn. Gwahoddir disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol O M Edwards i'r achlysur. Cytunwyd i roi gwybodaeth am y trefniadau yn Y Cyfnod.

### **1606 Materion Eiddo'r Cyngor**

- i. Gwaith ar y Llochesi Bws – bydd hwn yn cael ei orffen cyn hir.
- ii. Hysbysfyrdau'r Cyngor - cytunwyd i ofyn i Owain Sion atgyweirio a phaentio'r ddau hysbysfwrdd. Cytunwyd i holi am osod Hysbysfwrdd y Neuadd mewn man mwy cysgodol lle gall y cyhoedd ei weld.

### **1607 Materion ariannol**

Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol gyfredol. Cymharwyd yr wybodaeth yn erbyn Cyllideb y flwyddyn a chanfod fod y sefyllfa yn dderbyniol a boddhaol. Cytunwyd ei bod yn amhosib gosod Cyllideb gadarn ar gyfer y Fynwent, dim ond mynd yn ôl y defnydd a fu yn y gorffennol a newid y ffioedd os bydd angen.

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis (PAYE, cyflog, mynwent). Cytunwyd i ofyn am un toriad ychwanegol i'r fynwent newydd.

Wedi archwilio 11 pris, dewiswyd cwmni i ddarparu trydan i'r toiledau am gyfnod o 3 mlynedd. Cytunwyd i dalu trwy ddebyd uniongyrchol a cheisio gwneud darlleniadau ar lein.

**1608 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned** - diolchwyd i Huw P Roberts am dynnu sylw at y cynllun "Rambling on Wheels" i alluogi pobl anabl grwydro drwy gefn gwlad.

**1609 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a soniodd fod Sioned Evans wedi dychwelyd i'w swydd. Bydd Cyfarfod Blyneddol cyn diwedd y mis.

### **1610 Gohebiaeth:**

#### **1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais trydan dŵr Pant Clyd.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

- b. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais am estyniad yn Hen Sgubor.
- c. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei wrthod i gais "The Toll House" am drosi storfa yn uned preswyl.
- d. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghori ar Oleuo Ymwthiol.

### 2 Gwynedd:

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am doriadau yn y gyllideb cynnal llwybrau.
- b. Derbyniwyd gwybodaeth am gost cynnal biniau halen. Gohiriwyd penderfynu ar y mater ar hyn o bryd.

### 3 Un Llais Cymru:

- a. Derbyniwyd drafft newydd o'r Rheoliadau Ariannol newydd a chytunwyd i'r Is-bwyllgor Cyllid roi ystyriaeth lawn iddo ym mis Hydref.
- b. Derbyniwyd gwybodaeth am gynhadledd SLCC yn Llandudno a chytunodd y Clerc i fynychu.

### 4. Eraill:

- i. Derbyniwyd adroddiad yr Ombwdsman.
- ii. Cytunwyd i'r cais i gefnogi cynnwys astudiaeth "Effaith Ieithyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn" wrth i'r Arolygwr Annibynnol archwilio'r cynllun uchod. (*Cais wedi dod oddi wrth Cylch yr Iaith / Dyfodol i'r Iaith / Canolfan Hanes Uwchgwyrfai / Cymdeithas yr Iaith*)
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am grwpiau trafod hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg
- iv. Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad o'r Cyngor gan Catrin Roberts. Diolchwyd iddi am dros wyth mlynedd o wasanaeth ffyddlon a dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol. Diolchwyd iddi hefyd am gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol O M Edwards. Cytunodd y Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer y sedd wag.
- v. Cytunodd Alwyn Roberts i'w enw fynd ymlaen fel cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol O M Edwards.

*Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Medi 6ed yn y Neuadd Bentref  
Amser gorffen: 9.20pm*